No.

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 5 Chwefror, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: G. Chapman (Cadeirydd ac Aelod Lleyg); N. Ireland (Is-Gadeirydd ac Aelod Lleyg); Cynghorwyr P. Drake, E. Goodjohn, M.J. Hooper, J.M. Norman, J. Protheroe a N.J. Wood ac M. Evans (Aelod Lleyg)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), J.E. Charles, C.P. Franks, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

762 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

763 COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, 2024 fel cofnod cywir.

764 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

765 DIWEDDARIAD CHWARTER 2 Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL (PW) -

Cyflwynwyd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar sefyllfa Chwarter 2 y Risgiau Corfforaethol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2023 a mis Medi 2023 a gynhwysir yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Cryno ar Risgiau Corfforaethol.

Rhoddodd yr adroddiad drosolwg i'r Aelodau o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar gyfer Chwarter 2 (mis Ebrill 2023 i fis Medi 2023).

Dywedodd y Cynghorydd Hooper nad yw’n siŵr pam fod Brexit yn dal i gael ei gynnwys ar y Gofrestr Risgiau. Yn ogystal, dywedodd y Cynghorydd Hooper, o’i bersbectif, fod problem yn ymwneud â fframio rhai risgiau yn enwedig o ran breuder ariannol. Er bod cyfeiriad at sefyllfa economaidd y wlad, teimlai fod breuder ariannol yn fwy o bryder gwleidyddol gyda rhai ffactorau sylfaenol yn cael eu colli fel sut y byddai'r Cyngor yn cynnal gwasanaethau. Yn olaf, cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at Brosiect Sero a dywedodd gan fod hynny'n bryder i'r Pwyllgor ei bod yn dda y byddai Prosiect Sero yn parhau’n faes ffocws.

Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol y byddai'n briodol o ran Brexit i'r ddogfennaeth risg lawn gael ei chyflwyno i'r Pwyllgor i amlinellu'r holl faterion. Byddai hynny hefyd yn ymdrin ag agweddau ar freuder ariannol. O ran Prosiect Sero, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai diweddariad chwe mis yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu ac felly byddai'n ddefnyddiol pe bai cyfeiriad at hynny yn adroddiad y Gofrestr Risgiau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Goodjohn at y risg Anghenion Dysgu Ychwanegol a chyllid ychwanegol o £850k a gofynnodd pa welliannau fyddai'r arian ychwanegol yn eu darparu ac a oedd effaith wedi bod ar y risg a'r mesurau rheoli. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai gwybodaeth yn cael ei cheisio gan Addysg ac ateb ei anfon drwy e-bost.

Cyfeiriodd y Cadeirydd, Mr Chapman, hefyd at Brexit a Covid-19 yn aros ar y Gofrestr Risgiau a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael mwy o wybodaeth ynghylch pam yr oedd y risgiau hynny'n parhau ar y Gofrestr. Ar y cyfan, roedd y Pwyllgor o'r farn y dylai'r Cabinet adolygu cynnwys Brexit a Covid-19 ar y Gofrestr ar y sail bod y prif faterion wedi symud ymlaen a'u bod yn cael sylw dan feysydd risg eraill.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD -

(1) NODI sefyllfa Chwarter 2 o ran risgiau corfforaethol (Ebrill 2023 - Medi 2023) fel yr amlinellir yn yr Adroddiad Cryno ar Risgiau (Atodiad A).

(2) CYFEIRIO adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at y Cabinet iddynt gael eu hystyried. Mae sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel a ganlyn:

- Y dylai’r Cabinet nodi'n glir y rhesymau penodol pam mae Brexit yn parhau ar y Gofrestr Risg a beth yw'r camau gweddilliol sy’n parhau.
- Bod y Cabinet yn ailystyried cynnwys Covid a Brexit fel risgiau ar y gofrestr gyda barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y dylid dileu'r ddwy risg.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Hysbysu'r Cabinet am safbwynt a sylwadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

766 ADRODDIAD BLYNYDDOL CHWYTHU'R CHWIBAN (SM/PGCD) -

Cyflwynwyd yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi i'r Pwyllgor ddiweddariad blynyddol a chrynodeb o ganlyniadau arolwg staff a gynhaliwyd er mwyn canfod ymwybyddiaeth o Bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor a pharodrwydd i'w ddefnyddio.

Mabwysiadodd y Cyngor y Polisi Chwythu'r Chwiban (y Polisi) yn 2014. Adolygwyd y Polisi yn 2019 a chymeradwywyd y Polisi diwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio ar 3 Chwefror 2020. Diben y Polisi oedd sicrhau bod cyflogeion y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i'r cyhoedd ac amddiffyn unigolion y gallai fod angen iddynt ddatgelu gwybodaeth am unrhyw 'gamarfer' o fewn y Cyngor, gan gynnwys unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn ymwneud â rhyw berygl, twyll neu ymddygiad anghyfreithlon neu anfoesegol arall sy'n gysylltiedig â'r gweithle, boed gan gyflogai neu gyd-gyflogai.

Gydag 11 o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd, yn 2022/23 cafodd y nifer uchaf o ddigwyddiadau chwythu'r chwiban eu cofnodi (2021/22) ac roedd hyn yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd 8 mlynedd treigl o 4.15 y flwyddyn.

Canfasiwyd swyddogion monitro o 21 o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru i ganfod nifer y digwyddiadau chwythu'r chwiban a gofnodwyd er mwyn cymharu. Derbyniwyd naw ymateb yn nodi bod cyfanswm o 36 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi, 4 digwyddiad fesul Awdurdod ar gyfartaledd yn 2022/23. Fodd bynnag, roedd 17 o ddigwyddiadau wedi digwydd yn un Awdurdod, roedd 2 Awdurdod wedi cofnodi 5 digwyddiad, roedd 2 Awdurdod wedi cofnodi 3 digwyddiad ac roedd 2 Awdurdod wedi cofnodi 0 digwyddiad.

O'r 33 o ddigwyddiadau a adroddwyd dros yr wyth mlynedd diwethaf, dangosodd y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau y nifer isaf sef 3 a'r Gyfarwyddiaeth Amgylchedd a Thai a oedd â'r nifer uchaf o ddigwyddiadau a adroddwyd sef 13. Yn ystod 2021/22 profodd y Cyngor gynnydd mewn cwynion corfforaethol gan aelodau o'r cyhoedd i 495 (2021/22: 358) a 51 dan Reoliadau Gweithdrefn Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014. Derbyniodd Comisiynydd y Gymraeg 3 chwyn gan aelodau o'r cyhoedd, a chadarnhawyd 2 ohonynt. Gostyngodd nifer y cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o 61 yn 2021/22 i 49. Dadansoddwyd y cwynion hyn mewn Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol Blynyddol 2021/22 ar wahân.

Yn hanfodol i lwyddiant y Polisi oedd ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff ynghyd â pharodrwydd i adrodd am broblemau.

Ym mis Mehefin 2022 lansiodd y Cyngor yr Hyb "Codi Llais" ar Staffnet. Mae'r hyb yn gweithredu fel un pwynt mynediad i staff gael gwybodaeth am y Polisi ac yn cynnwys ffurflen ar-lein sy'n galluogi staff i adrodd am broblemau yn gyflym ac yn hawdd. Ategwyd hyn gan wasanaeth ffôn Codi Llais cyfrinachol a oedd yn

cynnig ffordd ddiogel a chyfrinachol i staff adrodd am broblemau a phryderon yr oedd y Polisi'n ymdrin â nhw.

Yn dilyn ymgyrch hyrwyddo fewnol yn ystod Chwarter 2 yn 2023, cynhaliwyd arolwg staff i asesu ymwybyddiaeth staff o'r Polisi yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2023. Cynhaliwyd nifer o weithgareddau i annog cydweithwyr i gymryd rhan a chynyddu ymatebion; roedd hyn yn cynnwys cynnal brandio a chynnwys blaenorol i sicrhau lefelau uchel o gydnabyddiaeth gan gydweithwyr. Yn ogystal, atgynhyrchwyd gweithgareddau hyrwyddo a chyfleoedd i ymgysylltu â'r arolwg o brosiect llwyddiannus yn 2022. Ystyriwyd defnyddio swyddogaeth arolygon o fewn platfform Cydymffurfiaeth Meta y Cyngor (a ddefnyddir fel arfer i hyrwyddo polisïau'r Cyngor), ond ni ellid gwneud hyn oherwydd diffyg cydymffurfio â safonau'r Gymraeg.

Gwnaed penderfyniad i ddefnyddio Cymryd Rhan y Fro, platfform ymgysylltu'r Cyngor, i gynnal yr Arolwg "Codi Llais" yn hytrach na Microsoft Forms. Roedd gan Cymryd Rhan y Fro broses adeiladu arolwg soffistigedig a hawdd ei defnyddio, offer ymgysylltu, dadansoddeg a swyddogaethau adrodd. Yn fras roedd yr arolwg yn defnyddio'r un cwestiynau â'r rhai a ddefnyddiwyd o'r blaen i alluogi cymhariaeth. Ymatebodd 288 o aelodau o staff i arolwg 2023 o 21 o Wasanaethau. Roedd hyn yn ostyngiad ar nifer yr ymatebwyr ar gyfer 2021/22 o 232.

Nododd canlyniadau'r arolwg fod gwaith hyrwyddo a wnaed i godi ymwybyddiaeth o'r polisi yn cael effaith gadarnhaol gyda chanran y cydweithwyr yn nodi bod ganddynt fwy o ymwybyddiaeth o'r Polisi yn cynyddu o 75% i 92%. Dylai hyn gael ei gymedroli gan y ffaith mai dim ond 49% o'r ymatebwyr oedd wedi darllen y polisi, er bod 54% yn nodi eu bod wedi darllen y "polisi chwythu'r chwiban ar dudalen" neu wylio'r fideo crynhoi. Gostyngodd canran yr ymatebwyr a oedd yn gallu nodi pob un o'r 10 maes camymarfer y mae'r Polisi yn ymdrin â nhw i 53.29% (2021/22: 68%), er bod 10.73% arall wedi gallu nodi 9 maes. Dim ond 0.35% nad oeddent yn gallu nodi unrhyw feysydd. Er bod hyn yn ymddangos yn anghyson â'r ffaith bod 92% yn ymwybodol o'r polisi, roedd yn adlewyrchu'r ffaith bod llai na 50% o'r ymatebwyr wedi ei ddarllen.

Roedd angen gwella gwybodaeth cydweithiwr yn y maes hwn o'r polisi trwy waith hyrwyddo yn y dyfodol. Cynyddodd canran yr ymatebwyr a nododd eu bod yn barod i adrodd am faterion i 68% (2021/22 58%). Pan oedd staff yn ymwybodol o'r amddiffyniadau cyfreithiol a roddwyd iddynt, cododd y ganran a oedd yn barod i adrodd am faterion dan y Polisi i 72%. Pan roddodd ymatebwyr resymau pam na fyddent yn barod i adrodd am ddigwyddiadau chwythu'r chwiban, daeth ofn canlyniadau posibl iddynt eu hunain i'r amlwg fel thema glir. Roedd dadansoddiad llawn o ymatebion yr arolwg yn Atodiad B yr adroddiad.

Roedd pymtheg digwyddiad chwythu'r chwiban wedi'u hadrodd ers 1 Ebrill 2023. Roedd deg yn destun ymchwiliad, roedd 2 y tu allan i'r Polisi gan gael eu hystyried dan Bolisïau eraill y Cyngor fel y Polisi Cwyno, ac ni chadarnhawyd 3 digwyddiad. O ganlyniad i ganlyniadau'r arolwg, byddai gwaith hyrwyddo'n cael ei wneud yn flynyddol i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r Polisi a'r amddiffyniadau cyfreithiol a

roddir i chwythwyr chwiban mewn ymdrech i gynyddu parodrwydd staff i adrodd am faterion.

Roedd gwaith yn cael ei wneud i ystyried sut y gellid cynyddu'r cyfraddau ymateb i'r Arolwg Codi Llais. Roedd hyn yn cynnwys newidiadau i frandio a gweithgareddau hyrwyddo, cynnal ymchwil gydag aelodau o staff i ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar a fyddent yn cwblhau'r arolwg a defnyddio'r adborth hwn i ddylunio ymgyrch fwy effeithiol. Byddai arolygon staff blynyddol yn cael eu cynnal i olrhain cynnydd yn y meysydd hynny, gyda'r canlyniadau'n cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Dywedodd y Cynghorydd Hooper nad oedd yn glir a oedd cynnydd mewn hysbysiadau yn gadarnhaol i'r graddau bod mwy o staff yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r polisi neu a oedd angen deall rhai materion pellach. Cyfeiriodd y Cynghorydd Hooper at argymhelliad y Pwyllgor Safonau bod 100% o staff yn cael eu gwneud yn gwbl ymwybodol o'r Polisi Chwythu'r Chwiban a dywedodd mai dyna amcan y Cyngor yn barod, mae'n debyg.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd mai'r nod oedd bwrw'r targed perfformiad o 100% gymaint â phosibl ac felly gwnaed llawer iawn o waith hyrwyddo gydag ystod o ddulliau. Byddai cynnwys y Polisi Chwythu'r Chwiban yn y pecynnau ar gyfer staff newydd yn cael ei annog a byddai gwneud chwythu'r chwiban yn hyfforddiant gorfodol yn cael ei ystyried. Fodd bynnag, roedd pryder mewn perthynas â gofynion staff, yn enwedig mewn perthynas â staff sy'n cael gormod o arolygon a allai effeithio ar lefel yr ymatebion. O ran y nifer cynyddol o hysbysiadau, roedd y Cyngor wedi nodi rhai themâu cyffredin, a byddai'r rhain yn cael eu hystyried yn agosach gyda chydweithwyr eraill y Cyngor. Yn ogystal, roedd yn bwysig i'r Cyngor ddal yr holl faterion a godir o fewn y Polisi Chwythu'r Chwiban yn llawn fel y gellid cynnal asesiad o'r tueddiadau gan gynnwys ffyrdd o fynd i'r afael â phryderon.

Dywedodd Mr. Ireland (Aelod Lleyg) fod pryder wedi'i amlygu yn yr arolwg yn enwedig mewn perthynas â chwestiwn 8 a staff yn teimlo'n bryderus am ddefnyddio'r Polisi. Gofynnodd Mr Ireland hefyd a oedd ymchwiliadau yn cael eu cynnal gan swyddog annibynnol. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai staff o'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnal ymchwiliadau. Dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, o ran rhwystrau sy'n atal staff rhag defnyddio'r Polisi Chwythu'r Chwiban fod angen darn o waith gan yr Adran Adnoddau Dynol ac roedd peth o'r gwaith hwnnw eisoes wedi dechrau, a byddai'r camau a gymerwyd gan y Cyngor yn cael eu dosbarthu y tu allan i'r cyfarfod. Ychwanegodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y bu ymdrech sylweddol i ehangu'r cyfleoedd i staff chwythu'r chwiban ac roedd hynny wedi ymestyn ar draws y sefydliad ac o safbwynt diwylliannol ac wrth gymharu ag awdurdodau lleol eraill, roedd Bro Morgannwg wedi gwneud cynnydd da.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman a oedd gan achwynydd yr hawl i apelio os nad oedd yn hapus â chanlyniad ymchwiliad ac a fyddai'r achwynydd yn cael gwybod

yn llawn am y canlyniad. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai pob achwynydd yn cael gwybod am ganlyniad y gŵyn ac a oedd y gŵyn honno'n cael ei symud ymlaen ac yn cael ei hymchwilio. Fodd bynnag, pe bai materion disgyblu yna byddai canlyniadau'r rheiny'n gyfrinachol. Eglurodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd hawl i apelio o fewn y Polisi Chwythu'r Chwiban er bod Polisïau eraill y Cyngor y gellid cyfeirio'r achwynydd atynt a oedd yn cynnwys yr hawl i apelio.

Gofynnodd y Cynghorydd Wood a gafodd y rhan fwyaf o hysbysiadau eu gwneud drwy reolwr llinell person neu drwy'r llinell 'Codi Llais'. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fod y rhan fwyaf yn dod trwy'r llinell 'Codi Llais' ac roedd yn bwysig amlinellu bod y Cyngor yn mynd ati i hyrwyddo pob llwybr sydd ar gael i berson godi mater. Roedd hefyd yn bwysig cydnabod bod y Polisi Chwythu'r Chwiban yn eitem reolaidd ym mhob cyfarfod tîm felly roedd y Cyngor wedi cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth gadarn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Protheroe ynghylch y cymorth sydd ar gael i staff a oedd wedi defnyddio'r Polisi Chwythu'r Chwiban, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y byddai rhywfaint o wybodaeth yn cael ei rhannu gydag aelodau'r Pwyllgor. Roedd y rhan fwyaf o’r hysbysiadau drwy'r Polisi Chwythu'r Chwiban yn ddienw a sicrhaodd y Cyngor fod achosion yn cael eu trin yn eithriadol o ofalus a sensitif.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi gwneud sylwadau o'r blaen o ran tan-adrodd cwynion i'r Cyngor, yn enwedig i'r ymholiadau hynny a godwyd yn uniongyrchol i Aelodau Etholedig. Yn ogystal, cyfeiriodd y Cadeirydd at y 288 o ymatebion unigol i'r arolwg staff, a dywedodd y byddai'n ddefnyddiol dangos hynny fel canran o gyfanswm y grŵp staff a allai fod yn y 1000au. Yn ogystal, dywedodd hefyd fod nifer o ymatebion ar gyfer pob gwasanaeth, ond unwaith eto byddai'n ddefnyddiol cynnwys cyfanswm nifer y staff ym mhob gwasanaeth. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at yr Adolygiad Panel a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Safonau a gofynnodd a ellid cyflwyno canfyddiadau'r Adolygiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, o ran materion a godwyd yn uniongyrchol gydag Aelodau Etholedig, y byddai hyn yn cael ei ystyried ond byddai angen gwahaniaethu rhwng ymholiad gwasanaeth a chwyn gwirioneddol. Byddai gwybodaeth am dimau staff yn cael ei chynnwys mewn adroddiadau yn y dyfodol a byddai gwybodaeth bellach yn cael ei rhannu’n electronig. Cytunodd y Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd unrhyw reswm pam nad oedd modd cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ond fel eitem Rhan II.

Gwnaeth Mr. Evans (Aelod Lleyg) sylw ynglŷn â gwneud chwythu'r chwiban yn hyfforddiant gorfodol a dywedodd y gallai hynny fod yn fideo pum neu ddeg munud syml gydag ychydig o gwestiynau ar y diwedd i ganfod lefel y ddealltwriaeth.

Gwnaethpwyd nifer o sylwadau mewn perthynas â chynnwys Chwythu'r Chwiban yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant gorfodol a nodwyd bod adolygiad o ofynion hyfforddiant yn cael ei gynnal fel rhan o Strategaeth Pobl y Cyngor a fyddai'n cael ei gyfeirio i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu Adnoddau a Pherfformiad Corfforaethol. Dywedodd y Pennaeth Adnoddau Dynol fod nifer o fodiwlau hyfforddiant wedi'u nodi'n briodol fel hyfforddiant gorfodol fel rhan o'r Adolygiad hwnnw, felly roedd yn bwysig ystyried y rhaglen hyfforddiant yn ei chyfanrwydd.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD -

(1) NODI cynnwys yr adroddiad.

(2) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i dderbyn adroddiadau blynyddol mewn perthynas â gweithredu'r polisi ac achosion.

(3) BOD y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn parhau i dderbyn adroddiadau blynyddol mewn perthynas â chanlyniadau arolygon staff.

(4) CYTUNO ar argymhelliad y Pwyllgor Safonau i'r holl staff fod yn ymwybodol o'r Polisi Chwythu'r Chwiban ac i'r polisi fod yn rhan o'r Rhaglen Sefydlu a Gloywi Staff.

(5) BOD y Polisi Chwythu'r Chwiban yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o hyfforddiant gorfodol ar gyfer staff, ac i'r mater gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol.

<u>Y rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1,2 a 3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(4) Ar ôl ystyried argymhellion y Pwyllgor Safonau a wnaed ar 2 Chwefror, 2024.

(5) Er mwyn i'r Pwyllgor Craffu ystyried cynnwys Chwythu'r Chwiban fel hyfforddiant gorfodol.

767 DIWEDDARIAD CH3: AMSERLEN RHAGLEN WAITH ARCHWILIO CYMRU 2023/24 - CYNGOR BRO MORGANNWG (CAC) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Aelodau am ddiweddariad Chwarter 3 o amserlen rhaglen waith Archwilio Cymru fel sy'n cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24.

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn amlinellu cynnydd Chwarter 3 ar raglen waith ac amserlen Archwilio Cymru fel sy'n cyd-fynd â Chynllun Archwilio Blynyddol Bro Morgannwg ar gyfer 2023/24. Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu a nodi'r cynnydd a wnaed ar Raglen Waith Archwilio Bro

Morgannwg hyd at Chwarter 3 ac ar ôl ystyried, cyfeirio’r adroddiad i’r Cabinet i’w arolygu.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar yr adolygiad o ddefnydd llywodraethau lleol o'r dangosyddion perfformiad a'r pwysigrwydd i hynny gael ei ymgorffori yng nghynllun corfforaethol drafft y Cyngor.  Gwnaeth y Cadeirydd sylw hefyd ar faterion gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub a dywedodd y dylai'r Cyngor gael mewnbwn i unrhyw adolygiad o'r gwasanaeth hwnnw, yn enwedig gan fod y Cyngor wedi talu ardoll a chan fod cynrychiolwyr y Cyngor ar y bwrdd llywodraethu.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD -

(1) NODI cynnwys yr adroddiad.

(2) Y DYLID cyfeirio’r adroddiad at y Cabinet iddynt fwrw golwg drosto.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Galluogi’r Cabinet i fwrw golwg dros y Rhaglen Gwaith Archwilio.

768 STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS A BUDDSODDI 2024/25 A DIWEDDARIAD AR GYFER 2023/24 (CAC) -

Roedd yr adroddiad yn rhoi adroddiad interim ar weithrediadau Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2023 a chyflwyno’r Polisi Rheoli Trysorlys a’r Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2024/25 i’w hystyried.

Amlinellodd yr adroddiad interim y Strategaeth Rheoli Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2024/25 fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad ac mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithrediadau Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2023.  Roedd yr holl weithgareddau yn unol â strategaeth gymeradwy'r Cyngor ar Reoli Trysorlys.

Cyfanswm y benthyca allanol o 31 Medi 2023 oedd £145.479m ar gyfradd gyfartalog o 4.37%.  Swm y benthyca allanol newydd oedd £5.000m yn ystod 9 mis cyntaf 2023/24 ar gyfradd o 4.38% a ddefnyddiodd y gyfradd prosiect arbennig ar gyfer cynlluniau Cyfrif Refeniw Tai.

Buddsoddodd y Cyngor gyda'r Cyfleuster Adneuo Cyfrifon Rheoli Dyledion, Awdurdodau Lleol, Biliau Trysorlys, Cronfeydd Marchnad Arian a Chyfrifon Galw Lloyds Bank.  Cyfanswm y buddsoddiadau ar 31 Rhagfyr 2023 oedd £50.495m ar gyfradd gyfartalog o 4.53% dros y cyfnod o naw mis.

Roedd angen i'r Cyngor sicrhau y cydymffurfiwyd â'r Cod Materion Ariannol, a ddatblygwyd gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) fel cod ymarfer proffesiynol, a ddiweddarwyd diwethaf ym mis Rhagfyr 2021. Er mwyn dangos bod y Cyngor wedi cyflawni'r amcanion hynny, nododd y Cod restr o ddangosyddion Materion Ariannol a Thrysorlys y dylid eu cyfrifo ynghyd â ffactorau eraill y mae'n rhaid eu hystyried. Cynhwyswyd y rhain yn Atodiad 1 yn rhan o'r Strategaeth.

Roedd gan y Cyngor hefyd ofyniad cyfreithiol i gydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau ac roedd wedi ystyried y canllawiau wrth ddatblygu'r Strategaeth. Roedd disgwyl i Fenthyca Newydd yn y cyfnod hyd at 2028/29 fod yn £184.377m ar gyfer Gwariant Cyfalaf newydd a £14.000M ychwanegol o fenthyca i gymryd lle benthyciadau a oedd yn aeddfedu ac adlewyrchu gallu lleihaol y Cyngor i fenthyca'n fewnol dros y cyfnod.

Roedd gwariant cyfalaf, wrth gael ei ariannu gan ddyled hirdymor, yn mynd i ddwy elfen gost, llog ar y prif swm a fenthycwyd ac ad-dalu'r prif swm a fenthycwyd. Darpariaeth Isafswm Refeniw oedd yr enw ar yr adnoddau yr oedd yn rhaid i'r Cyngor eu rhoi o'r neilltu ym mhob blwyddyn i ad-dalu'r prif swm a fenthycwyd, a nodwyd polisi cyfrifo'r Cyngor yn yr adroddiad.

Roedd y Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 yn Atodiad 2 yr adroddiad. Hon oedd y Strategaeth Rheoli Trysorlys ddrafft. Roedd ymgynghoriad cyllideb ar Gynigion y Rhaglen Gyfalaf yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac felly byddai unrhyw adolygiad i'r rhaglen yn deillio o'r ymgynghoriad yn golygu bod angen cyflwyno newidiadau i'r Strategaeth Rheoli Trysorlys derfynol a oedd i'w chyflwyno i'r Cabinet ar 29 Chwefror 2024.

Gwnaeth y Cynghorydd E. Goodjohn sylw ar lefel y llif arian a ddelir gan y Cyngor, a dywedodd ei bod yn bwysig i'r Cyngor fod â chronfa wrth gefn i ymdrin â rhai materion posibl o ran rhaglenni cyfalaf a derbyn arian grant.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at sylw diweddar yn y wasg ynghylch dyled y Cyngor, felly roedd adroddiadau fel y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn helpu i roi rhywfaint o gyd-destun ynghylch sut yr oedd y Cyngor yn rheoli ei gyllid.

Gofynnodd Mr. M. Evans (Aelod Lleyg) am ragamcanion derbyniadau cyfalaf yn y dyfodol. Hefyd ac o ran benthyciadau a oedd yn aeddfedu, gofynnodd a fyddai benthyciadau o'r fath yn cael eu gwneud dros gyfnod tymor hwy neu o ystyried amgylchiadau'r farchnad ar hyn o bryd, a fyddent yn cael eu gwneud ar sail fyrdymor. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Gweithredol – Cyfrifeg o ran derbynebau cyfalaf, roedd y Cyngor wedi bod yn ffodus oherwydd prosiectau fel y rhaglen buddsoddi mewn ysgolion, ond hefyd mewn meysydd eraill lle'r oedd y Cyngor wedi gallu sicrhau cydbwysedd o ran derbyniadau cyfalaf. Pe na bai rhai derbyniadau'n cael eu gwireddu, yna efallai y byddai angen benthyca dros dro i bontio unrhyw fwlch cyllid. O ran benthyciadau, dywedodd y Rheolwr Gweithredol fod y Cyngor fel arfer yn cymryd dull tymor hwy (tua 50 mlynedd), ond byddai'n ystyried rhai cynhyrchion byrdymor llai pe bai cyfradd ffafriol ganddynt.

Yn olaf, nodwyd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddaru canol blwyddyn.

PENDERFYNWYD -

(1) Y DYLID cymeradwyo’r adroddiad dros dro ar Reoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2023.

(2) Y DYLID cymeradwyo’r polisi ar gyfer gwneud Darpariaeth Isafswm Refeniw yn 2024/25.

(3) Y DYLID cymeradwyo’r Strategaeth Fuddsoddi a Rheoli’r Trysorlys arfaethedig ar gyfer 2024/25 gan gynnwys y penderfyniadau penodol canlynol (a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad):

- Pennu’r Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol ar £240.9699m ar gyfer 2023/24, £271.200m ar gyfer 2024/25, £303.939m ar gyfer 2025/26 a £336.893m ar gyfer 2026/27.
- Pennu’r Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol ar £226.147m ar gyfer 2023/24, £255.687 ar gyfer 2024/25, £287.406m ar gyfer 2025/26 a £320.338m ar gyfer 2026/27.
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Adran 151 o fewn cyfanswm y Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol fel yr amcangyfrifwyd ar gyfer blynyddoedd unigol i sicrhau symudiad rhwng y terfynau y cytunwyd arnynt ar wahân ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau hirdymor eraill.
- Pennu terfyn uchaf o £0m ar gyfer 2023/24, £10m ar gyfer 2024/25, £10m yn 2025/26 a £10m yn 2026/27 ar gyfer cyfanswm y prif symiau a fuddsoddwyd am dros 364 diwrnod.
- Pennu swm y benthyca rhagamcanol sy’n aeddfedu ar gyfradd sefydlog ym mhob cyfnod yn ganran o gyfanswm y benthyca rhagamcanol sy’n gyfradd sefydlog ar gyfer 2024/25, fel a ganlyn:

Tabl 1 - Terfynau uchaf ac isaf ar gyfer benthyca cyfradd sefydlog

| | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf |
|---|---:|---:|
| Dan 12 mis | 20% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 20% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 30% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 40% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 0% |

- Cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus a nodir yn Atodiad 1.
- Cymeradwyo Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys a nodir yn Atodiad 2.

<u>Y rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1-3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

769 PROSIECT CYFALAF YSGOL STANWELL (PGAMR) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i Aelodau'r Pwyllgor ar yr adolygiad Archwilio Mewnol o Brosiect Cyfalaf Ysgol Stanwell.

Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Mewnol yn ymwneud ag Ysgol Stanwell i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mehefin 2023 fel rhan o Adolygiad Archwilio Mewnol Blynyddol 22/23. Gofynnodd y Pwyllgor i Archwilio Mewnol ymgymryd â gwaith pellach, manylach yn ymwneud â Phrosiect Cyfalaf Ysgol Stanwell. Gwnaed gwaith pellach gan Archwilio Mewnol gyda chyngor gan Dîm Eiddo'r Cyngor mewn perthynas â'r broses dendro a chontractau yn yr ysgol.

Nid oedd y Pennaeth yn yr ysgol ac nid oedd ar gael yn ystod cyfnod yr adolygiad archwilio ac wedi hynny gadawodd gyflogaeth yr ysgol ym mis Awst 2023. Yn anffodus, bu farw Rheolwr y Safle ym mis Mehefin 2023.

Oherwydd natur gyfrinachol canfyddiadau'r gwaith Archwilio Mewnol dilynol, cyfeiriwyd y mater yn ôl at Gadeirydd y Llywodraethwyr a'r Pennaeth Dros Dro yn yr ysgol i ddelio ag ef dan bolisïau a gweithdrefnau priodol y Cyngor/ysgol, a'i gyfeirio ymlaen at sefydliadau allanol perthnasol i'w ystyried ymhellach.

Argymhellodd y Cadeirydd fod adroddiad llawn a chynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i amlinellu'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r adolygiad a wnaed o arferion caffael. Cytunwyd ar yr argymhelliad gan y Pwyllgor.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD -

(1) CYTUNO ar y camau a gymerwyd gan y tîm Archwilio Mewnol yn dilyn y gwaith pellach a wnaed.

(2) BOD adroddiad llawn a chynhwysfawr yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pan fo'n briodol i amlinellu'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r adolygiad a wnaed.

<u>Y rheswm dros y penderfyniadau</u>

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

770 MONITRO ARGYMHELLION.(PGAMR) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i'r Aelodau ar argymhellion archwilio mewnol wedi’u gwneud, wedi’u gweithredu a heb eu cwblhau.

Roedd datganiad sefyllfa o ran argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig archwilio mewnol wedi’u gwneud, wedi’u gweithredu a heb eu cwblhau ar 31

Rhagfyr 2023 i'w weld yn Atodiad A yr adroddiad. Roedd cyfanswm o 87 o argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig wedi'u gwneud yn dilyn gorffen archwiliadau o gynllun blynyddol 2023-24. Cytunwyd ar y rhain i gyd a hyd yma roedd 29 wedi'u gweithredu ac roedd gan 58 ddyddiad gweithredu yn y dyfodol.

O ran archwiliadau a gwblhawyd cyn y flwyddyn ariannol hon, roedd 1 argymhelliad heb ei gwblhau, dyna lle roedd y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno wedi mynd heibio. Roedd manylion yr argymhelliad hwn yn Atodiad B yr adroddiad. Roedd gan 2 argymhelliad blaenoriaeth ganolig, a wnaed mewn archwiliadau a gynhaliwyd yn 2021-22, ddyddiadau targed yn y dyfodol ar gyfer gweithredu. Roedd y rhain yn Atodiad C. Yn ogystal, roedd gan 16 o argymhellion a wnaed yn 2022-23 ddyddiad targed yn y dyfodol ac roedd y rhain yn parhau i gael eu monitro.

Aeth Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref 2023 i roi sicrwydd bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag argymhellion y cytunwyd arnynt o adroddiadau archwilio 2021/22 yn ymwneud â Diogelu Corfforaethol a Seiberddiogelwch nad oeddent ar y pryd wedi cael eu gweithredu'n llawn. Ar gais y Pwyllgor gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr hynny i ddod i gyfarfod y Pwyllgor eto.

O ran yr archwiliad Diogelu Corfforaethol a'r angen i sicrhau bod cofnod o'r holl staff a oedd wedi ymgymryd â hyfforddiant Lefel 1 yn bersonol yn hytrach na'i gwblhau ar-lein yn cael ei gynnal, eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fod y camau gweithredu a oedd yn weddill wedi'u cwblhau. Er mwyn dal staff nad oeddent yn defnyddio cyfrifiaduron, byddai angen i reolwyr roi hyfforddiant fel rhan o'u proses sefydlu i weithwyr newydd a phob dwy flynedd ar ddyddiad penodol i'r holl staff ar ôl hynny. Yna byddai templed i gofnodi presenoldeb yn cael ei roi i'r rheolwr i'w gwblhau a byddai hynny'n cael ei ddiweddaru yng nghyfrif dysgu'r unigolyn yn iDev.

Roedd y 2 argymhelliad mewn perthynas â seiberddiogelwch bellach wedi'u rhoi ar waith ac nid oeddent yn cael eu hadrodd yn yr Atodiadau mwyach. Cafodd yr un argymhelliad mewn perthynas â Diogelu Corfforaethol ei gynnwys yn Atodiad C gyda dyddiad gweithredu yn y dyfodol diwygiedig.

Roedd archwilwyr yn monitro'r argymhellion yn rheolaidd a byddai unrhyw oedi neu faterion diangen yn cael eu hamlygu i Uwch Reolwyr ac yn y pen draw, y Pwyllgor hwn.

Mewn perthynas â'r camau gweithredu heb eu hamlygu yn Atodiad C, cytunodd y Pwyllgor i'r Swyddogion priodol fynd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am archwiliad cydymffurfiaeth adeiladau Ysgol Gyfun Sant Cyres ac Ysgol y Deri a'r archwiliad yn ymwneud ag atgyweirio ceudyllau.

Yn dilyn hynny,

PENDERFYNWYD -

(1) NODI statws yr argymhellion uchel a chanolig fel y rhestrir yn yr adroddiad.

(2) BOD y swyddog cyfrifol, mewn perthynas â'r argymhellion sy'n weddill ar gyfer archwilio cydymffurfiaeth adeiladau Ysgol y Deri ac Ysgol Gyfun Sant Cyres, yn cael ei wahodd i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac amlinellu rhesymau dros llithriant.

(3) BOD y swyddog cyfrifol, mewn perthynas â'r argymhellion sy'n weddill ar gyfer yr archwiliad sy'n ymwneud ag atgyweirio ceubyllau, yn cael ei wahodd i fod yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac amlinellu rhesymau dros llithriant.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1-3) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

771 PARTNERIAETH CYDWASANAETHAU ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL (RIASS) 2024 (PGAMR) –

Rhoddodd yr adroddiad ddatganiad sefyllfa i'r Aelodau ar adnewyddu trefniant partneriaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol (GAMRRh) o fis Ebrill 2024.

Ffurfiwyd y GAMRRh ym mis Ebrill 2019 ac fe'i cynhaliwyd gan Fro Morgannwg. Llofnodwyd y cytundeb partneriaeth cychwynnol am 3 blynedd a'i ymestyn am ddwy flynedd. Wedi 5 mlynedd, ym mis Ebrill 2024, roedd angen adnewyddu'r bartneriaeth ac roedd angen i'r partneriaid gwreiddiol lofnodi cytundeb partneriaeth newydd.

Cafwyd adborth cadarnhaol mewn perthynas â darparu gwasanaethau archwilio gan bob un o'r 4 Swyddog Adran 151 ac uwch dîm rheoli partner. Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i barhau i gynnal y GAMRRh a'i ddatblygu i gyflawni ei amcanion. Roedd Rhondda Cynon Taf (RhCT) wedi rhoi rhybudd nad oedden nhw am barhau â'r trefniant partneriaeth gwasanaeth a rennir o fis Ebrill 2024.

Roedd Swyddogion Adran 151 o awdurdodau unedol eraill De Cymru wedi mynegi diddordeb mewn ymuno â'r GAMRRh yn ystod 2024/25.

Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor y farn bod angen gwybodaeth fanylach cyn y gellid dod i benderfyniad ynghylch a ddylid argymell i'r Cabinet y dylai'r Cyngor barhau i gynnal y Gwasanaeth a gwneud trefniant cytundebol newydd, felly cytunwyd i ohirio'r mater nes y cyfarfod nesaf.

Yna

PENDERFYNWYD – GOHIRIO y mater i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er mwyn cyflwyno adroddiad llawn i amlinellu'r holl drefniadau ariannol a chytundebol angenrheidiol cyn penderfyniad ffurfiol.

Y rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gael darlun llawn cyn cyflwyno unrhyw argymhellion i'r Cabinet yn gofyn i Gyngor Bro Morgannwg barhau i gynnal y Gwasanaeth a Rennir.

772 RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL WEDI'I DIWEDDARU 2023/24 (PGAMR) -

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno Blaenraglen Waith i'r Aelodau ar gyfer 2023/24.

Roedd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nifer o swyddogaethau a chyfrifoldebau craidd o fewn ei gylch gorchwyl. Roedd yn derbyn adroddiadau a chyflwyniadau gydol y flwyddyn i'w alluogi i gyflawni'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau craidd hynny'n effeithiol a rhoi hyder iddo yn llywodraethiant ariannol yr Awdurdod.

Er mwyn galluogi'r Pwyllgor i roi'r sicrwydd hwn ac i sicrhau ei fod yn ymdrin â'i ystod o gyfrifoldebau, cyflwynid Blaenraglen Waith ym mhob cyfarfod, gan nodi'r adroddiadau i'w cyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, i'w cymeradwyo neu eu diwygio, yn ôl yr angen.

Roedd y Blaenraglen Waith (BW) wedi'i diweddaru ar gyfer 2023/24 yn Atodiad A, roedd newidiadau wedi'u gwneud i adlewyrchu penderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd blaenorol.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor gymeradwyo'r BW wedi'i diweddaru neu ofyn am newidiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, ac yna

PENDERFYNWYD -

(1) Y DYLID cymeradwyo'r Flaenraglen Waith.

(2) Y DYLID cymeradwyo amserlen yr eitemau ar gyfer y cyfarfod nesaf ar 11 Mawrth 2024 drwy gynnwys gwahoddiadau i'r swyddogion cyfrifol ar gyfer Archwiliad Cydymffurfiaeth Adeiladau Ysgol y Deri ac Ysgol Gyfun Sant Cyres ac archwiliadau atgyweirio ceubyllau.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) I gadarnhau presenoldeb a gofynion gwybodaeth.